# Cydweithwyr Cyngor Celfyddydau Cymru 2023 & 2024

## Mynegiad o Ddiddordeb

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys

**Cydweithwyr Cyngor Celfyddydau Cymru 2023 & 2024** ..... 1
- Pam gofyn am fynegiad o ddiddordeb? ..... 3
- Beth yw gwaith Cydweithiwr? ..... 3
- Â diddordeb? ..... 4
- Beth nesaf? ..... 4

**Gwybodaeth bellach** ..... 5
- Sut gyfleoedd sydd? ..... 5
- Yr amser a'r ymrwymiad sydd eu hangen gan Gydweithwyr ..... 6
- Am beth y chwiliwn yn eich mynegiad a sut y defnyddiwn y wybodaeth? ..... 6
- Beth y gallaf ddisgwyl o fod yn Gydweithiwr? ..... 6
- Taliad ..... 6
- Hyfforddi ..... 6
- Cyfathrebu ..... 7
- Beth a ddisgwyliwn o'n Cydweithwyr? ..... 7
- Oes gennych ddiddordeb? ..... 7

## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, a sain. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ac Arwyddeg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Recriwtio Cyfle Cyfartal a chroesawn geisiadau gan bawb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd eich dewis iaith yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

# Cydweithwyr Cyngor Celfyddydau Cymru 2023 & 2024

## Hoffech weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru fel Cydweithiwr? Cewch dâl a'r cyfle i lywio ein celfyddydau yn 2023-24.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo lleisiau a phrofiadau amrywiol yn ein gwaith. Felly chwiliwn am bobl o bob cymuned i'n helpu.

Hoffech gael y cyfle i weithio am dâl fel Cydweithiwr a fydd yn llywio ein rhaglenni gwaith? Llenwch fynegiad byr o ddiddordeb

**Hanner dydd ar dydd Mercher 20 Hydref 2022 yw'r dyddiad cau i fynegi diddordeb.**

# Cydweithwyr Cyngor Celfyddydau Cymru 2023 & 2024

## Mynegiad o Ddiddordeb

Oes gennych brofiad proffesiynol neu bersonol o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl a chymunedau a dangynrychiolir?

Ydych chi'n angerddol am y celfyddydau neu ag arbenigedd a phrofiad ynddynt? Ydych chi'n gwerthfawrogi effaith y celfyddydau ar unigolion a chymunedau? Allwch chi gynnig golwg newydd ar ein gwaith a sut yr aseswn y ceisiadau a gawn? Allwch chi ein helpu i gysylltu ag ystod ehangach o bobl?

Allwch chi ddefnyddio eich sgiliau a'ch meddwl creadigol ac ymarferol i weithio ar wahanol faterion a phrosiectau? Oes gennych brofiad o ddatblygu ymarfer a gweithio'n greadigol mewn sectorau eraill gan gynnwys meysydd iechyd, dysgu creadigol a rhyngwladol?

**Os felly, hoffem glywed gennych.**

Galwn am fynegiadau o ddiddordeb gan unrhyw un sydd am ymgeisio am y cyfleoedd â thâl fel Cydweithiwr Celfyddydol. Gobeithiwn ddenu grŵp eang o bobl dalentog i wneud gwaith sy'n benodol i'w gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad personol.

Mae'r bobl sy'n creu celf yr un mor bwysig i ni ag yw'r gelf ei hun. Croesawn geisiadau gan bobl a fu'n gweithio gyda phobl, grwpiau a sefydliadau sydd wedi profi rhwystrau i gael gafael ar arian a/neu sydd â phrofiad personol o'r fath rwystrau.



## Pam gofyn am fynegiad o ddiddordeb?

Mae'r pandemig wedi amlygu'r diffyg cydraddoldeb yn ein cymdeithas a hoffem gydnabod hynny gyda'r cynllun yma. Mae rhai pobl wedi'u heffeithio'n waeth nag eraill gan y pandemig. Felly hoffem ehangu a chynyddu nifer y bobl y cysylltwn â nhw a'u talu fel Cydweithwyr i ychwanegu lleisiau a safbwyntiau gwahanol at ein penderfyniadau a'n meddwl strategol.

## Beth yw gwaith Cydweithiwr?

Os llwyddwch, cewch eich cynnwys mewn grŵp o bobl a gallwn gynnig cyfleoedd â thâl. Bydd y cyfleoedd yn cael eu paru â'ch arbenigedd a'ch sgiliau.

Byddwch yn defnyddio eich profiad personol ac ymarferol o greadigrwydd yn eich cymuned. Cynigiwch arweiniad i'n blaenoriaethau gan gynnwys ein cynlluniau, ein prosiectau, ein rhaglenni strategol, ein grantiau a'n prosesau asesu ac ymgeisio. Bydd y cyfleoedd yn benodol i'ch sgiliau, eich profiad a'ch arbenigedd.

Chwiliwn am ystod o bobl â phrofiadau personol mewn gwahanol gymunedau ac/neu arbenigedd yn y celfyddydau a ariannwn a'r rhai sy'n dod i'r amlwg.

Hoffem adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau wrth asesu a dosbarthu ein harian ac arian Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol.

Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda phobl â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys pobl sy'n ethnig a diwylliannol amrywiol, pobl F/fyddar, anabl a niwroamrywiol, lesbiaid, hoywon, deurywolion, trawsrywolion, hyfrydion ac ati, siaradwyr Cymraeg a dysgwyr a phobl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Croesawn geisiadau gan bobl yn y grwpiau yma. Cwrddwn â'ch anghenion hygyrchedd drwy gydol y broses o ddod yn Gydweithiwr.

## Â diddordeb?

Yn gyntaf cyflwynwch ar-lein eich mynegiad o ddiddordeb. Nodwch yn fyr eich sgiliau, eich profiad a'ch prif feysydd o arbenigedd. Os ydych yn gymwys, ewch yn un o'n grŵp o Gydweithwyr potensial.

Pan fydd cyfle'n codi, caiff y grŵp wybod amdano gan ddibynnu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Gofynnwn ichi ymgeisio amdano gyda rhagor o wybodaeth am ba mor gymwys ydych chi i wneud y gwaith.

Wedyn cyflwynwch ddogfen ysgrifenedig neu fideo byr i nodi sut y mae'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad yn briodol i'r gwaith dan sylw. Defnyddiwn y wybodaeth i ddewis pobl i wneud y gwaith.

Nid yw'r ffaith ein bod wedi derbyn eich mynegiad o ddiddordeb yn gwarantu gwaith. Ond byddwch yn y grŵp a gaiff gynigion o waith dros y 2 flynedd nesaf.

I fod yn y grŵp o Gydweithiwr potensial, rhaid eich bod:

- Dros 18 oed.
- Â chaniatâd i weithio ym Mhrydain.
- A rhaid peidio â bod yn aelod cyfredol o'n Cyngor.

**Hanner dydd, ddydd Mercher 20 Hydref 2022 yw'r dyddiad cau mynegi diddordeb.**

## Beth nesaf?

Hoffem i'r broses ymgeisio fod mor deg a chyfartal â phosibl. Cysylltwch os oes unrhyw addasiadau y gallem eu gwneud neu gymorth y gallem ei gynnig i'ch cynorthwyo i ymgeisio.

E-bostiwch cydweithwyr@celf.cymru gydag unrhyw gwestiynau.

Cydnabyddwn dderbyn eich mynegiad o ddiddordeb. A cheisiwn ymateb yn ffurfiol yn y 3 wythnos ar ôl y dyddiad cau.

Drwy ledaenu'r gair am hyn gallwch sicrhau bod ein gwaith yn cynnwys pobl sy'n cynrychioli holl amrywiaeth Cymru. Anfonwch y wybodaeth at y bobl a ddylai gyfrannu at ein gwaith.

## Gwybodaeth bellach

Os buoch yn Gydweithiwr yn 2022, rhaid ichi ailymgeisio i fod yn rhan o'r grŵp 2023 & 2024. Erbyn hyn mae'r camau cychwynnol yn haws. Canolbwyntiwn ar eich 3 neu 4 prif faes o arbenigedd.

Drwy ofyn ichi ganolbwyntio ar eich prif faes profiad a gofyn am eich profiad personol, gobeithio targedu'n well y bobl rydym eu heisiau.

## Sut gyfleoedd sydd?

Mae ystod ohonynt gan gynnwys:

- Cyfarfodydd penderfynu ar grantiau a datblygu ein systemau rhoi grantiau (Cysylltu a Ffynnu, Creu, Mentrau'r Diwydiant Cerdd, y Celfyddydau ac Iechyd neu'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol).
- Bod yn rhan o'n Hadolygiad Buddsoddi sydd ar y gweill pan benderfynwn ar ba sefydliadau a gaiff gytundebau ariannu amlflwyddyn.
- Cyfrannu at ddatblygu ein polisi a'n strategaeth gan gynnwys, er enghraifft, rhyngwladol, ehangu ymgysylltiad, llwybrau creadigol a'n cynllun strategol newydd, hirdymor.
- Defnyddio eich sgiliau a'ch profiad mewn prosiectau a rhaglenni, gan gynnwys, er enghraifft, y Celfyddydau, Iechyd a Lles, Dysgu Creadigol, cefnogi unigolion a sefydliadau a brofodd rwystrau i gael gafael ar arian (Camau Creadigol), ein strategaeth ryngwladol a mentrau cydraddoldeb i gelfyddydau penodol (fel gyda Sefydliad Cerdd y PRS).
- Grwpiau Gorchwyl a Gorffen sy'n ffordd effeithiol o ganolbwyntio ar un mater.

## Yr amser a'r ymrwymiad sydd eu hangen gan Gydweithwyr

Bydd lefel wahanol o ymrwymiad i bob cyfle a chewch wybod y manylion ymlaen llaw. Nid oes rhaid ichi ymgeisio am bob cyfle. Gwyddom yn iawn fod gan bobl ymrwymiadau eraill.

Er enghraifft, bydd helpu gydag asesu grantiau fel arfer yn cymryd diwrnod neu ddau o ddarllen ymlaen llaw a chyfarfod asesu a fydd yn hanner diwrnod neu ddiwrnod. Mae'n bosibl y gofynnwn i Gydweithwyr wneud 2 neu 3 chyfarfod y flwyddyn.

Os ydych yn artist unigol neu'n gweithio i sefydliad celfyddydol (gan gynnwys rhai yn ein Portffolio), cewch ymgeisio i fod yn Gydweithiwr ond efallai na allwch fod yn rhan o bob maes o'n gwaith os oes buddiannau sy'n gwrthdaro. Fel Cydweithiwr cewch ymgeisio am arian grant gennym ond ni fyddwch yn rhan o rownd lle mae buddiannau'n gwrthdaro. [Darllenwch ein Polisi Cofrestru a Datgan Buddiant am ragor o fanylion.]

## Am beth y chwiliwn yn eich mynegiad a sut y defnyddiwn y wybodaeth?

Yn eich mynegiad, gofynnwn ichi gynnwys gwybodaeth gyswllt ac ateb ambell gwestiwn drwy dicio blwch i nodi eich profiad personol a'ch sgiliau ymarferol mewn gwahanol feysydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, gofynnwn ichi nodi eich 3 neu 4 prif faes.

Defnyddiwn y wybodaeth i'ch paru â'r cyfleoedd a gynhigiwn. Cysylltwn â chi am gyfleoedd penodol sy'n cyd-fynd â'ch arbenigedd. Wedyn gofynnwn am ragor o wybodaeth am eich sgiliau a'ch profiad i baru'r cyfleoedd â'r unigolion gorau. Rhoddwn ragor o wybodaeth am hyn a sut y gwerthuswn y wybodaeth wrth gynnig y cyfle.

Byddwch yn rhan o'r grŵp o Gydweithwyr am ddwy flynedd (24 mis). Wedyn cyhoeddwn alwad newydd i adnewyddu'r grŵp i sicrhau y bydd gennym y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Gall ein Cydweithwyr presennol ailymgeisio.

## Beth y gallaf ddisgwyl o fod yn Gydweithiwr?

Os cewch eich paru â chyfle, cewch eich galw eich hun yn Gydweithiwr. (Ni chewch alw eich hun yn Gydweithiwr tan hynny.)

## Taliad

Bydd tâl am sesiynau hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan yn seiliedig ar ffi pro rata o £300 y dydd (£150 am hanner diwrnod). Mae hyn yn cynnwys TAW lle y gellir ei chodi.

'Cyflogedig' fydd eich statws yn ôl yr HMRC. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid talu treth incwm ac yswiriant gwladol ar bob ffi a chewch eich cynnwys yn ein cyflogres felly.

## Hyfforddi

Cynhaliwn hyfforddiant a chefnogaeth yn ôl yr angen am y cyfleoedd a gynhigiwn. Cewch eich talu am yr amser hyfforddi. Rhoddwn ragor o wybodaeth pan ddewch yn Gydweithiwr.

## Cyfathrebu

Cyfathrebwn â chi'n rheolaidd a bydd gennych gyswllt yn y Cyngor ichi allu trafod problemau neu gwestiynau.

## Beth a ddisgwyliwn o'n Cydweithwyr?

Gallwch fod yn hunangyflogedig, yn ymarferwyr llawrydd neu'n gyflogedig gan sefydliad. Os ydych yn gweithio, efallai y bydd rhaid ichi gael caniatâd eich cyflogwr i wneud y gwaith. Os ydych mewn cyflogaeth llawn amser tybiwn y byddwch yn cael eich rhyddhau gan eich cyflogwr i gymryd rhan.

Rhaid ichi ymddwyn yn y ffordd ddisgwyliedig gan unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus. Dyma ddisgrifiad o'n disgwyliadau: Cod yr ymarfer gorau.

Bydd gennych fynediad at wybodaeth gyfrinachol a byddwch yn rhan o drafodaethau cyfrinachol. Rhaid ichi barchu'r cyfrinachedd. Peidiwch â rhannu'r wybodaeth ag unrhyw un arall nad yw wedi'i awdurdodi gennym na'r tu allan i unrhyw gyfarfodydd y buoch ynddynt (oni bai bod cytundeb penodol fel arall). Mae hyn yn wir am benderfyniadau neu gynnwys trafodaethau.

Weithiau bydd y trafodaethau'n ddwys a chynhennus. Ond unwaith y bydd cytundeb, rhaid glynu at y penderfyniad am fod y grŵp yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd amdano. Rhoddwn wybodaeth bellach a hyfforddiant am hyn pan ddechreuwch fel Cydweithiwr.

## Felly, oes gennych ddiddordeb?

Llenwch fynegiad byr o ddiddordeb a'i anfon atom erbyn hanner dydd ar 20 Hydref 2022.

